# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 3**

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR AR SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

**PENNOD 2**

Y DRETH SYDD I'W CHODI AR WAREDIADAU TRETHADWY

*Deunyddiau cymwys a chymysgeddau cymwys o ddeunyddiau*

**17 Cymysgedd cymwys o ddeunyddiau: gronynnau mân**

(1) Caiff rheoliadau ragnodi gofynion y mae'n rhaid eu bodloni (yn ychwanegol at ofynion 1 i 6 yn adran 16) er mwyn i gymysgedd o ddeunyddiau sy'n cynnwys dim ond gronynnau mân gael ei drin fel cymysgedd cymwys o ddeunyddiau.

(2) Caiff y rheoliadau ddarparu (ymysg pethau eraill) bod—

(a) rhaid i'r cymysgedd fod wedi tarddu mewn modd rhagnodedig (er enghraifft, drwy broses trin gwastraff ragnodedig);

(b) rhaid bod tystiolaeth ragnodedig ynglŷn â natur y gronynnau mân yn y cymysgedd;

(c) rhaid i gamau rhagnodedig fod wedi eu cymryd mewn perthynas â'r cymysgedd (naill ai gan weithredwr safle tirlenwi awdurdodedig neu gan unrhyw berson arall);

(d) rhaid bod tystiolaeth ragnodedig ynglŷn â chymryd y camau hynny;

(e) rhaid i'r cymysgedd roi canlyniad rhagnodedig os cynhelir prawf rhagnodedig arno.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 17. (See end of Document for details)*

(3) Pan wneir rheoliadau o dan is-adran (2)(e), caiff rheoliadau hefyd wneud darpariaeth gysylltiedig, gan gynnwys (ymysg pethau eraill) ddarpariaeth—

(a) sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithredwr safle tirlenwi awdurdodedig gynnal y prawf rhagnodedig ("y prawf") ar gymysgeddau rhagnodedig o ronynnau mân;

(b) sy'n pennu pryd y mae'n rhaid i'r gweithredwr wneud hynny;

(c) sy'n galluogi ACC—

(i) i gyfarwyddo'r gweithredwr i gynnal y prawf ar bob cymysgedd o ronynnau mân a ddygir ar y safle, neu ar ddisgrifiadau penodol o'r cymysgeddau hynny o ronynnau mân;

(ii) i gynnal y prawf ei hun ar unrhyw gymysgedd o ronynnau mân a ddygir ar y safle;

(d) sy'n ei gwneud yn ofynnol i ACC a'r gweithredwr—

(i) cadw tystiolaeth ragnodedig mewn cysylltiad â'r prawf, a

(ii) ei storio'n ddiogel am gyfnod rhagnodedig;

(e) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gweithredwr ddarparu gwybodaeth ragnodedig i ACC mewn cysylltiad â'r prawf—

(i) ar gyfnodau rhagnodedig, a

(ii) yn y ffurf a'r modd rhagnodedig;

(f) sy'n ei gwneud yn ofynnol neu'n caniatáu i'r gweithredwr gymryd camau rhagnodedig os yw cymysgedd o ronynnau mân yn methu'r prawf;

(g) sy'n gwahardd cymysgeddau rhagnodedig o ronynnau mân rhag cael eu trin fel cymysgeddau cymwys o ddeunyddiau mewn amgylchiadau rhagnodedig.

(4) Caiff rheoliadau o dan is-adran (3) wneud darpariaeth ar gyfer—

(a) cosbau, neu

(b) adolygiadau ac apelau,

mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan yr is-adran honno; a phan fyddant yn gwneud hynny, cânt ddiwygio neu gymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt) unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â'r dreth.

(5) Caiff unrhyw reoliadau o dan yr adran hon, ac eithrio rheoliadau sy'n rhoi pwerau i ACC neu'n gosod dyletswyddau arno, wneud darpariaeth drwy gyfeirio at bethau a bennir mewn hysbysiad a gyhoeddwyd gan ACC (ac nad yw wedi ei dynnu'n ôl drwy hysbysiad a gyhoeddwyd wedi hynny).

(6) Yn yr adran hon—

ystyr "gronynnau mân" ("*fines*") yw gronynnau a gynhyrchir gan broses trin gwastraff sy'n cynnwys elfen fecanyddol;

ystyr "rhagnodedig" ("*prescribed*") yw wedi ei ragnodi mewn reoliadau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 17 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 17 mewn grym ar 18.10.2017 gan O.S. 2017/955, **ergl. 2(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 17.